# Strategaeth Cleddyfa Cymru Cyf. (2025)

## Ein Gweledigaeth

Creu amgylchedd cleddyfa cynaliadwy, cynhwysol a ffyniannus yng Nghymru – gan alluogi llwyddiant cenedlaethol a rhyngwladol ar lefelau Cadét, Iau, Uwch a Hŷn yn y dyfodol.

**Pileri Strategol**

| **Piler** | **Datblygu Hyfforddwyr** | **Datblygu Cleddyfwyr** | **Rheoli'r Sefydliad** | **Darparu Digwyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Nodau Strategol | Cynyddu a datblygu sgiliau'r gymuned hyfforddi | Cynyddu cyfranogiad a pherfformiad cleddyfwyr | Gweithredu mewn modd effeithlon, cynaliadwy a thryloyw | Darparu digwyddiadau dymunols, hygyrch o'r radd flaenaf |
| Canlyniadau Allweddol | Cynyddu nifer yr hyfforddwyr gweithgar<br><br>Hyfforddiant o ansawdd uwch ar draws grwpiau oedran ac arfau | Cynyddu'r nifer o gleddyfwyr ifainc a hŷn<br><br>Cynyddu nifer y cleddyfwyr sy'n cynrychioli Tîm GBR<br><br>Mwy o amrywiaeth mewn cyfranogiad | Rheolaeth dda wedi ei chydnabod gan Chwaraeon Cymru<br><br>Iechyd ariannol a gweithredol cryf sy'n bodloni'r holl safonau cydymffurfio | Presenoldeb uwch flwyddyn ar ôl blwyddyn<br><br>Profiad cyfranogwr rhagorol<br><br>Mynediad i ddigwyddiadau sy'n brofiad gynhwysol |
| Metrigau Llwyddiant | Cynnydd o 2% yn flynyddol yn nifer yr hyfforddwyr<br><br>Cynnydd o 2% yn hyfforddwyr sy'n cwblhau Lefel 1<br><br>Mwy o hyfforddwyr mewn rhanbarthau heb wasanaeth ddigonol | Cynnydd o 7% yn flynyddol yng nghofrestriadau cleddyfwyr ifainc a hŷn<br><br>Cydbwysedd rhywedd gwell<br><br>Canlyniadau gwell ar lefelau PIP (BYC), Cadét ac o ran cael eu dewis gan garfannau cenedlaethol | Cynnal y berthynas â Chwaraeon Cymru i sicrhau bod safonau rheoli'n cael eu bodloni<br><br>Cydymffurfiaeth 100% â gofynion statudol a diogelu<br><br>Cyllideb gytbwys yn flynyddol<br><br>Tracio niferoedd y cleddyfwyr/cystadlaethau /hyfforddwyr/clybiau yn flynyddol | Twf blynyddol o 1% mewn ymgeiswyr ar gyfer digwyddiadau<br><br>Adborth cadarnhaol o dros 90% am y digwyddiad<br><br>Cynnydd yn y clybiau sy'n cymryd rhan<br><br>Mae modd archebu lle ym mhob digwyddiad ar-lein, ynghyd â darparu canlyniadau yn fyw |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau allweddol | Defnyddio cyrsiau cleddyfa Prydain RDH (CDP) ar-lein er mwyn datblygu hyffoirddwyr<br><br>Anfon arolwg at glybiau Cymru i deall beth y gallwn ni ei wneud i helpu i ddatblygu a chynyddu nifer yr hyfforddwyr a rhifau<br><br>Partneru â Cleddyfa Prydeinig ar gyfer cefnogaeth ranbarthol<br><br>Hyfforddiant WSA | Cynnal digwyddiad hyfforddi RDA (ADP) Cymru ar gyfer cadetiaid<br><br>Hyrwyddo cleddyfa Cymreig mewn ysgolion a chlybiau yng Nghymru a'r DU<br><br>Timau llawn i fynychu digwyddiadau Winton<br><br>Tracio ac adrodd ar ganlyniadau'n gyhoeddus<br><br>Llwybr cymorth i hybu cleddyfwyr i gael eu dewis gan Dim GBR | Cynnal adolygiad o'r rheolaeth yn flynyddol<br><br>Cyhoeddi Polisïau Diogelu ac CAC (EDI) wedi euddiweddaru<br><br>Cynyddu ymrwymiad gan wirfoddolwyr<br><br>Adolygu polisïau'n flynyddol gyda mewnbwn gan randdeiliaid<br><br>Rhaglen Insport | Cyhoeddi calendr digwyddiadau cenedlaethol<br><br>Cynnal ymgyrch i recriwtio dyfarnwr a gwirfoddolwyr<br><br>Gwella'r profiad digidol (cofnodion, canlyniadau)<br><br>Hyrwyddo drwy farchnata wedi'i dargedu<br><br>Cynyddu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol |

**Themâu Trawsdoriadol (Yn berthnasol i bob piler)**

- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC):** Ymgorffori arferion cynhwysol ar draws pob rhaglen a digwyddiadau. Ymrwymiad i raglen Insport.
- **Galluogi Digidol**: Manteisio ar dechnoleg i wella hyfforddiant, cyfathrebu, cyflwyno digwyddiadau, a gweinyddiaeth.
- **Cynaliadwyedd**: Lleihau'r effaith ar yr amgylcheddo drwy arferion digwyddiadau mwy gwyrdd a phartneriaethau.
- **Datblygu Cymunedol:** Cryfhau clybiau a cleddyfa ar lawr gwlad fel sylfaen ar gyfer llwyddiant hirdymor.
- **Partneriaethau a Chyllid:** Meithrin perthnasoedd â chyllidwyr, noddwyr a rhanddeiliaid i gynyddu buddsoddiad mewn cleddyfa yng Nghymru

**Adolygu a Rheolaeth**

- Y strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol gan y Bwrdd a chynrychiolwyr y rhanddeiliaid
- Cyhoeddir adroddiadau tryloyw ar gynnydd bob blwyddyn